# CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR

## COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR NOS FERCHER 05.04.2023 AM 7 O'R GLOCH YR HWYR -drost zoom.

**Presennol –** Cynghorwyr

Liz Daniel
Doug Jones
Edgar Owen
Delyth Jones
Dafydd Davies
Sali Burns
Iwan Davies
Shoned Rees Griffith (Clerc)

1. **Croeso'r Cadeirydd -** Croesawodd y Cadeirydd pawb oedd yn bresennol. Llongyfarchiadau i Menna a Tudur ar eu priodas heddiw, ac i Llion a'i wraig ar enedigaeth eu mab.

2. **Ymddiheuriadau –** Cyng MJ, Cyng LLI, Cyng HT

3. **Datganiadau aelodau yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.**

   3.1. Ni ddatganwyd gwybodaeth ychwanegol i'r uchod, nag a restrir yn barod o fewn cofrestr 'Datganiad Cyffredinol o Fuddiannau Personol Aelodau'.

4. **Derbyn Cofnodion 20.02.2023**
   Y Cyng EO yn cynnig fod y cofnodion yn gywir, Y Cyng LD yn eilio.

5. **Materion yn codi o'r Cofnodion 18.01.2023**
   **Materion Caeathro** –
   **Troedffordd o Gaeathro i Gaernarfon -** Dal ar yr agenda. Aros y Cais PAC.
   **Drych -** Cyng EO i gyfarfod swyddog y Cyngor ar safle.
   **Llinellau Melyn ger mynediad Erw Wen** - Ar y rhaglen waith Cyngor Gwynedd.
   **Monitro cyflymer traffic Hen Lon Gaeathro** - Aros canlyniadau.
   **Cylchfan Gaeathro** - Cyng MJ wedi derbyn ymateb gan Cyngor Gwynedd a'r Clerc wedi ei rannu gyda'r Cynghorwyr. Aros i'r gwaith gael ei wneud gan Cyngor Gwynedd.
   **Llwybr troed o Garej Gwalia hyd at y Llwybr Cyhoeddus** -i drafod ymhellach.

   **Materion Waunfawr** –
   **Llinnellau Gwyn –**.Ar y rhaglen waith Cyngor Gwynedd.
   **Les tir tu ol i'r Ganolfan** / **Cae Aml-dywydd** - Aros y Les gan Cyngor Gwynedd. Chydig o waith cynnal a chadw angen ei wneud i'r cae aros Cyngor Gwynedd i'w wneud.

**Golau fflachio bob ochr i'r pentref –**Cyfarfod gyda Sian Gwenllian, Dyfed Edwards ar ol y Pasg i drafod y Ganolfan Iechyd. Aros tan y cyfarfod nesaf i gael adborth cyn penderfynu y ffordd ymlaen gyda'r Golau yn Fflachio.
**Gwefan y Cyngor Cymuned –**Cyng DD wedi gallu cael mynediad i'r wefan, Clerc i drefnu amser i fynd at Y Cyng DD i ddiweddaru y wefan.
**Drych** - Cyng EO, am drefnu i gyfarfod swyddog y Cyngor ar safle i drafod ymhellach.
**Potiau blodau yn Waunfawr/Caeathro** - Aros Antur Waunfawr.
**Baw Ci** - Clerc wedi derbyn ymateb gan Bennaeth yr Ysgol ei bod yn gefnogol i'r Cyngor Cymuned fynd i'r Ysgol i drafod gyda'r plant ac i rannu bagiau gyda'r teuluoedd sydd hefo cwm. Amser i'w drefnu.
**Gor yrru tu allan i'r ysgol** - Clerc wedi ymateb i Cyngor Gwynedd i osod y mesurydd cyflymder rhwng lle mae'r ffordd yn lledu a giat fawr i'r ysgol.
**Bin tu allan i siop** - Clerc wedi anfon cais i Cyngor Gwynedd ynglyn a'r bin tu allan i'r siop. Cyng EO wedi cael sgwrs gyda nhw hefyd.

**6.** **Seddi Gwag -** un sedd wag ar ol ar y Cyngor Cymuned, Cynghorwyr i holi yn y pentref os oes gan rhwyun ddiddordeb.

**7.** **Gerddi Bach -** Grwp Cynefin i gadarnhau dyddiad y bydd y tenantiaid yn symud i mewn i'r tai. Aros pris gan MacVenture i osod rwber o dan y swings.

**8.** **Adroddiadau**

**a.** **Lloches Bws** -Amserlen bws ger yr Hen Bost wedi cael ei falu a'i drwshio erbyn hyn. Cyng EO wedi holi Cyngor Gwynedd ynglyn a'r cwmni sydd wedi gosod y safleoedd newydd iddynt, Claytons - Clerc i holi ymhellach.

**.** **Y Fynwent** - Gwaith o drin y mwsog wedi ei wneud. G R Services wedi bod mewn cyswllt gyda'r Clerc ynglyn a prisiau am y flwyddyn 203/24 bydd dim newid yn y prisiau. Cyngor Cymuned yn hapus i gario'n mlaen gyda'r gwasanaeth rydym yn ei dderbyn ganddynt.

**c**. **Llwybrau -**. Wedi atgoffa G R Services am y wal tu ol i'r Cofgolofn.

**Ch**. **Safle y Toiled a'r Maes Parcio drost ffordd i'r Hen Bost -** Dim

**9.** **Materion Cynllunio**

**a.** **Ceisiadau newydd**

| Dyddiad Cofrestru | Bwriad | Lleoliad | Rhif Cais | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| 2401.2023 | Refurbishment of existing derelict dwelling including partial demolition /re-build and new roof structure. Construction of new detached store.(yn unol a'r cais gan CG) | Rallt Goch, Waunfawr | C23/0288/26/DT | Dim sylwadau |

**10. Gohebiaeth**

**11. Mantolen 2022/23**

Cynnigwyd fod y mantolen am 2022/23 yn gywir gan y Cyng DD, ac eilwyd gan y Cyng EO

**Asesiad Risc a Rheolau Mewnol**

Cadarnhawyd fod Asesiad Risc ac Adolygiad o Reolau Mewnol y Cyngor yn gywir am y flwyddyn a derbyniwyd. Trafodwyd a penderfynwyd penodi Cyngor Gwynedd fel archwilydd mewnol am eleni, clerc i gysylltu a hwy.

**12. Materion Ariannol**

**12.1 Arian wedi ei dalu allan**

| | |
|---|---|
| Cyflog Clerc Ionawr, Chwefror a Mawrth | £774.00 |
| H M Revenue & Customs | £156.00 |
| Unllais | £258.00 |

**12.2 Arian a dderbyniwyd**

| | |
|---|---|
| Ffioedd Claddu | £600.00 |

**12.3 Anfonebau i'w talu**

| | |
|---|---|
| Cyflog Clerc Ebrill | £258.00 |
| H M Revenue & Customs | £52.00 |
| G R Services | £813.00 |

**12.4 Ffioedd Banc**

| | |
|---|---|
| Ionawr - Chwefror | £6.60 |
| Chwefror - Mawrth | £5.00 |

Am edrych mewn i'r posibilrwydd i'r Cyngor Cymuned gael cyfrif ar lein, fyddai yn gwneud yn bosibl i ni wedyn dalu anfonebau a'r lein a.y.y.b ac yn lleihau ffioedd bancio.

**13. Rhoddion**

| | |
|---|---|
| Ambiwlans Awyr Cymru | £300.00 |
| Clwb Bowlio Waunfawr | £200.00 |
| Eisteddfod Llangollen | £50.00 |
| Ysgol Hafod Lon | £100.00 |
| Theatr Bara Caws | £100.00 |
| Macmillan (angen gohebiaeth dwy iaith) | £150.00 |
| Eisteddfod Genedlaethol (Apel lleol) | £300.00 |
| Clwb Snwcer Wanfawr | £1,000.00 |
| (Datgelwyd Diddordeb gan y Cyng EO) | |

**14. Dyddiad a Lleoliad y Cyfarfod Nesaf**

Nos Fercher, 17.05.2023, Cyfarfod Blynyddol yn y Ganolfan yn Waunfawr.

**15. Materion Aelodau. -**

| | |
|---|---|
| Cyng EO - | Dim wedi ei dderbyn |
| Cyng SB - | Dim wedi ei dderbyn |
| Cyng DJ - | Dim wedi ei dderbyn |
| Cyng ID - | Dim wedi ei dderbyn. |
| Cyng LD - | Dim wedi ei dderbyn |
| Cyng MJ - | Dim wedi ei dderbyn |
| Cyng DJ - | Dim wedi ei dderbyn |
| Cyng HT - | Dim wedi ei dderbyn |
| Cyng LLI - | Dim wedi ei dderbyn. |
| Cyng DD- | Cafwyd cyflwyniad ar lafar gan y Cyng DD ar ei ymchwil hyd yma ynglyn a Ynni Cymunedol i'r ardal, a rhannwyd copi o'r cyflwyniad gyda'r Cynghorwyr i gyd cyn y cyfarfod. Mewn egwyddor roedd pawb yn gefnogol i edrych mewn fwy i'r cynllun. Ndowyd gan y Cyng DD ei fod angen cefnogaeth gan y Cynor Cymuned a penderfynwyd bod y Cyng SB a Cyng ID am roid y gefnogaeth. |